

BETH ALLWCH CHI EI WNEUD?

UWCHRADDY



Dwsin gwehydd o syniadau ar gyfer yr ystafell ddosbarth uwchradd

Isod ceir 13 o syniadau am bethau i'w gwneud yn yr ystafell ddosbarth neu'r ysgol uwchradd yn nathliad Mawrth 2011. Efallai mai dim ond y pethau sy'n cyd-fynd â'ch cynllun gwaith presennol fydd gennych chi amser i'w gwneud ond mae rhai syniadau yma a fydd yn ychwanegu rhywbeth at y rheiny. Efallai y bydd gennych amser i ddatblygu rhywbeth ychwanegol - mae yma syniadau am ddiwyddiadau i'w cynnal yn yr ystafell ddosbarth, digwyddiadau ar draws yr adran Addysg Grefyddol a syniadau ar draws yr ysgol gyfan. Efallai y gallwch ddefnyddio'r amser hwn i arwain pwnc ar y thema Addysg Grefyddol am wythnos neu hanner tymor neu dymor. Yn ogystal â'r syniadau ar y dudalen hon, ystyriwch hefyd y syniadau ar y tudalennau ar gyfer Ysgolion Arbennig a disgyblion galluog a thalentog. Er bod goryffwrdd rhwng y rhain, mae syniadau y gallech eu datblygu yno hefyd.

Cadwch lygad ar y wefan gan y bydd mwy o syniadau yn datblygu a bydd siawns i chi gyfrannu eich cynlluniau a'ch syniadau eich hunain i'r byd Addysg Grefyddol. Dim ond man cychwyn i roi blas i chi yw hyn... bydd mwy o wybodaeth a mwy o syniadau datblygedig yn ymddangos ond y gobaith yw y byddwch yn dechrau rhannu'r pethau go iawn yr ydych yn eu gwneud. Bydd cyfle hefyd i chi roi newyddion am eich cynlluniau a'ch dathliadau eich hunain hefyd.



1. Gweiddi amdano

Mae mis Addysg Grefyddol yn amser delfrydol i gynhyrchu arddangosfa ardderchog o Addysg Grefyddol yn eich ysgol. Mae hyn yn rhywbeth y gallwch herio disgyblion i gymryd rhan ynddo. Chwiliwch am le arddangos yn atriwm neu neuadd yr ysgol lle gallwch ddathlu'r Addysg Grefyddol dda sy'n digwydd yn eich ysgol. Mae nifer o themâu y gallwch eu defnyddio fel sail i'ch arddangosfa:



- Gwaith mewn pwnc neu grŵp blwyddyn penodol
- Gwaith ar thema benodol (ysgrifennu / barddoniaeth / ffotograffiaeth)
- Arddangosfa am "pam ddylech chi astudio TGAU Addysg Grefyddol"
- Crefydd ar y bwrdd newyddion yn eich ystafell ddosbarth

Cofiwch nad oes raid i arddangosfa olygu rhoi inc ar bapur bob tro. Beth am wneud "vox pop" o leisiau gan blant yn yr ysgol ynglŷn â pham y maent yn hoffi Addysg Grefyddol a throwch hwn yn fideo byr ar gyfer arddangosfa yn y cyntedd, neu e-gyflwyniad o waith fel cyfres o sleidiau, arddangosfa neu arteffactau neu waith model y plant – gadewch i'ch dychymyg hedfan a gwnewch sbloets mewn man cyhoeddus yn eich ysgol.

2. Gwnewch rywbeth gwahanol yn yr ystafell ddosbarth / ysgol

Gallai'r dathliad Addysg Grefyddol fod yn gyfle i wneud rhywbeth ychydig yn wahanol yn ystafell ddosbarth Addysg Grefyddol eich ysgol i dynnu sylw staff, myfyrwyr a'r gymuned ehangach at Addysg Grefyddol. Yn nes ymlaen bydd syniadau eraill yn cael eu cynnig ond isod ceir chwe syniad a allai greu rhywbeth arbennig yn yr ystafell ddosbarth Addysg Grefyddol yn ystod yr wythnos honno.



- **Cynhaliwch ddadl am faterion allweddol.** Gall y cyfle i ddatblygu sgiliau dadlau fod yn bwysig iawn ar gyfer sgiliau TGAU a Lefel AS/A2 yn ogystal â disgyblion iau. Mae'r cysyniad o ddadl gyfiawn, resymegol a thystiolaethol hefyd yn rhan ganolog o sgiliau'r dinesydd cyfrifol. Felly, trefnwch ddadl, gweithgaredd cocyn hitio, llwybr cydwybod neu dechneg arall yn eich ystafell ddosbarth. Mae digon o ddewis ond y peth gorau i'w wneud yw gadael i'r myfyrwyr ddewis un eu hunain. Gadewch i'r gynulleidfa holi cwestiynau hefyd er mwyn cynnwys cymaint ag sy'n bosibl o ddisgyblion.
- **Rhowch gynnig ar gymuned ymchwilgar.** Datblygwyd y dechneg hon gan SAPRE [Society for Advancing Philosophical Enquiry and Reflection in Education – www.sapere.org.uk] a P4C [Philosophy for Children – www.p4c.com]. Mae mwy o wybodaeth ar gael am y broses arlein ond dechreuwch gyda chwestiwn ymholi neu symbyliad agored megis “pwy sy'n gyfrifol am ofalu am y ddaear”, neu ddelwedd o safle tirlenwi neu glip fideo. Mae symbyliad da yn arwain at gwestiynau eraill. Yn y ddeialog, y gwranddo a'r dysgu y mae cynnydd yn digwydd.
- **Gwnewch archwiliad lleol o effeithiau crefydd ar eich ardal leol.** Edrychwch ar yr adran am ymweliadau hefyd ond ewch am dro o amgylch yr ardal leol, edrychwch ar yr adeiladau, enwau strydoedd, y siopau, pa dystiolaeth sy'n bodoli o grefydd a dylanwad crefydd ar eich cymdogaeth – edrychwch y tu hwnt i'r manau addoli. Gweler www.retrails.org.uk am fwy o syniadau.

- **Crëwch banel amser holi.** Gwahoddwch bobl o safleoedd ffydd gwahanol, boed yn fewnol neu o'r tu allan, ac yna gofynnwch i'r gynulleidfa holi cwestiynau perthnasol iddynt. Gellid cyflwyno'r cwestiynau ymlaen llaw neu gallent fod yn annisgwyl i'r panel. Chi fydd yn chwarae rhan David Dimbleby!
- **Peintiwch wal.** A oes wal y tu allan i'ch ystafell ddosbarth, neu rywle yn yr ysgol, sy'n edrych braidd yn ddifywyd? Beth am gynnwys yr adran gelf, neu'n well fyth, gofynnwch i artist lleol sydd â thuedd crefyddol i beintio'r wal i gynrychioli'r amrywiaeth o gredoau a syniadau yn eich ysgol?

3. Cynhaliwch gystadleuaeth

Mae plant wrth eu boddau â chystadlaethau a dyma'r amser delfrydol i drefnu un. Ystyriwch amrywiaeth o opsiynau fel bo plant â gwahanol gryfderau yn cael cyfle i gymryd rhan ac ystyried sut y gallai'r rhain blethu i mewn yng ngwaith arferol yr ystafell ddosbarth yn ogystal â bod yn waith ychwanegol. Efallai y bydd gennych dasg gwaith cartref sydd hefyd wrth wraidd y gystadleuaeth. Gofalwch eich bod yn tynnu sylw at yr enillwyr a bod hyn yn cael ei gydnabod mewn maes ehangach y tu allan i'r ystafell ddosbarth Addysg Grefyddol. Gallech drefnu gwasanaeth ar gyfer blwyddyn neu dŷ neu ar gyfer yr ysgol gyfan. Gofalwch bod rhieni'r enillwyr yn cael cymryd rhan ac yn cael eu gwahodd i'r ysgol i gwrdd â chi â'r pennaeth. Chwiliwch am wobrau bach gan yr ysgol neu gan noddwyr lleol neu o'ch cyllideb megis tocynnau llyfr, tocynnau iTunes, tocynnau sinema, cryno ddisgiau.



Ychydig o syniadau i'ch rhoi ar ben ffordd:

- Dylunio logo ar gyfer yr Adran Addysg Grefyddol
- Cystadleuaeth traethawd ar thema'n ymwneud â gwaith cyfredol (a pharatoad da ar gyfer yr arholiadau!)
- Gwneud ffenestr liw ar gyfer Addysg Grefyddol
- Cystadleuaeth ddadlau am Addysg Grefyddol fel rhan o wers neu wasanaeth

- Gwneud fideo am Addysg Grefyddol yn yr ysgol neu bwnc yn y Cynllun Gwaith (gweler isod)
- Gwneud model / artefact
- Cystadlu gyda “Celfyddyd Ysbrydol” neu “Farddoniaeth Ysbrydol” (www.natre.org.uk)
- Gwneud tudalen (neu dudalennau) ar gyfer gwefan yr ysgol
- Cystadleuaeth “Pwy sydd am fod yn Filiwnydd?”
- Cwestiwn y dydd am Addysg Grefyddol gyda blwch atebion a theilyngdod fel gwobrau
- Dylunio poster i ddangos sut mae Addysg Grefyddol yn bwysig mewn gwahanol alwedigaethau
- Cyfansoddi cân am eich syniadau / credoau / ffydd eich hun

4. Gwneud ffilm / fideo gerddoriaeth

Mae plant yn fwyfwy agored i fyd y ffilmiau y dyddiau hyn ac wrth i gostau cyfarpar ostwng mae mwy o gyfleoedd i'r plant ddangos eu doniau. Dewiswch destun sy'n berthnasol i'ch maes llafur neu gadewch i'ch dychymyg redeg yn wyllt a throwch y cyfan yn gystadleuaeth. Am fwy o feddyliau a syniadau ac am offer ardderchog, edrychwch ar **True Tube** ar www.trutube.co.uk. Am enghraifft gan fyfyrwr TGAU, edrychwch ar http://www.youtube.com/watch?v=BYiXNWFeUZE&feature=player_embedded. Am fwy o wybodaeth am gyfarpar, syniadau DPP, edrychwch ar www.mmiweb.org.uk/filmmaking/



5. Gynnwys y disgyblion

Mae Dangos a Dweud yn rhywbeth prin mewn ysgolion uwchradd. Felly, beth am ddyrannu 5 munud o bob gwers yn ystod y Mis Dathlu ar gyfer “sesiwn Dangos a Dweud” ar gyfer pob grŵp blwyddyn. Rhai pethau i'w hystyried:

- Gellir gofyn i ddisgyblion ddod â gwrthrych / artefact i mewn o adref sy'n dweud rhywbeth am y pethau y maent yn credu ynddynt neu sy'n bwysig iddynt

- Gallent adrodd stori sy'n bwysig yn eu bywydau neu fywydau eu teuluoedd neu draddodiad ffydd
- Gallent ddangos sioe sleidiau o'u man addoli
- Gellid gofyn iddynt roi cyflwyniad byr am fater y maent yn teimlo'n gryf yn ei gylch

6. Datblygu Thema Trawsgwricwlaidd

Mae mis dathlu Addysg Grefyddol yn amser delfrydol i ymgyrchu dros ddiwrnod, wythnos neu fis Addysg Grefyddol. Mae sawl ffordd o gysylltu â phynciau eraill naill ai'n unigol neu bob un ohonynt. Mae cyfres o syniadau i'w gweld ar wefan NATRE (<http://www.natre.org.uk>); ac mae ambell amlinelliad isod o themâu trawsgwricwlaidd:

- **Yr Amgylchedd, Stiwardiaeth a Newid Hinsawdd.** Nid yw hwn yn bwnc sy'n mynd i ddiplannu ac mae gan bob crefydd rhywbeth pwysig i'w ddweud am ein perthynas â'r blaned. Dylai'r adran wyddoniaeth fod â rhywbeth i'w ychwanegu am natur y wyddoniaeth sy'n rhan o newid hinsawdd a natur y broses wyddonol. A yw'r disgyblion yn credu “y bydd gwyddoniaeth yn dod o hyd i ateb?” neu a oes rhaid i ni gymryd natur stiwardiaeth yn fwy difrifol?; ac os wyf am “garu fy nghymydog fel fi fy hun” a yw hyn yn golygu bod raid i mi ailystyried fy safonau byw fy hun?
- **Beth sy'n gwneud fi yn fi?** Mae hunaniaeth yn beth personol iawn ac mae'n cynnwys cyfres o rannau. Un o'r rhain yw'r hyn yr wyf yn ei gredu a'r dylanwadau crefyddol yn fy mywyd. A oes gan unrhyw un arall hawl i ddweud wrthyf fod yr hyn yr wyf yn ei gredu yn anghywir? Sut wyf yn ymdrin â'r heriau i fy hunaniaeth yng nghanol y myrdd o ffynonellau mewn bywyd cyfoes?
- **Sut wyf yn gwybod fod hyn yn wir?** Mae cwestiynau am y gwir, pwy sy'n dweud y gwir a sut wyf yn gwybod hynny yn hanfodol yn ogystal â deall am natur y gwir a'r gwahanol fathau o wirionedd (gwyddonol, mathemategol, athronyddol, moesegol, crefyddol ac ati...). Mae hwn yn bwnc gwych fel thema drawsgwricwlaidd.



7. Gynnal diwrnod / cynhadledd i'r chweched dosbarth

- Hyd yn oed os ydych yn rhedeg dosbarth Addysg Grefyddol Lefel A ardderchog, y siawns yw na fydd mwyafrif y plant yn eich ysgol yn ymwybodol o'r gofyn cyfreithiol am Addysg Grefyddol yn y chweched dosbarth. Felly beth am gynnal diwrnod ar gyfer y chweched dosbarth? Os oes gennych grŵp AS/A2 gallant fod yn hwyluswyr / arweinwyr grwpiau. Gallwch wau sawl thema i mewn i hyn hefyd e.e. os ydych yn penderfynu mynd am astudiaethau cyffredinol, bydd pwnc yno. Os yn bosibl, gofynnwch i siaradwyr a chyflwynwyr allanol ddod i mewn, gan gynnwys aelodau o gymunedau ffydd lleol (dylai'ch fforwm ffydd lleol neu GYSAG allu eich helpu i wneud hynny).
- Siaradwch â myfyrwyr y chweched dosbarth am bwnc y mae ganddynt ddi-ddordeb ynddo a cheisiwch gynllunio cyfres o ddigwyddiadau er mwyn creu diwrnod diddorol. Gallai'r testunau gynnwys:
- Beth ddylwn i ei gredu pan fo cymaint o wahanol gredoau?
- Beth yw ystyr stiwardiaeth mewn cymdeithas gyfalafol?
- Pwy sydd â'r hawl i ddewis mewn mater o fyw neu farw?
- Moeseg rhinweddau, lwtilitariaeth neu Ddyletswyddeg - sut allaf benderfynu?
- A oes gan greigiau hawliau?
- A yw'r hawl i ryddid barn yn golygu y gallaf ddweud pethau drwg am bobl eraill?



8. Gwasanaethau i ddathlu cyfraniad Addysg Grefyddol i fywyd yr ysgol

Ceisiwch ddefnyddio amser gwasanaeth yn ystod mis Dathlu Addysg Grefyddol i roi blas o fywyd crefyddol yr ysgol, amrywiaeth y ffydd a chredoau sydd yn yr ysgol. Gofynnwch i ymwelwyr ddod i mewn i siarad am eu ffydd a'u syniadau.

9. Addysg Grefyddol Flasu

Mae bwyd yn bwysig iawn mewn defodau a seremonïau. Felly efallai yr hoffech ofyn i'r disgyblion ddod â bwydydd sy'n perthyn i'w cefndiroedd nhw i'w rhannu gyda'r grŵp, neu weithio gyda'r adran technoleg bwyd neu gegin yr ysgol i ddatblygu bwydlen Addysg Grefyddol (neu gyfres o fwydlenni ar gyfer y mis), neu dewch a rhywfaint o fyrbrydau blasus i mewn i'r ystafell ddosbarth.

Gofynnwch i ddisgyblion blynyddoedd 7 ac 8 i ddatblygu bwydlen traws-grefyddau / credoau – beth sy'n digwydd pan fo Mwslimiaid, feganiaid ac Iddewon yn yr un parti – gwell peidio â gweini rholiau selsig!



10. Teithio'r wlad...

Mae teithiau bob amser yn boblogaidd ymysg plant a phryd gwell na mis dathlu Addysg Grefyddol i wneud hynny. Gallai hwn fod yn amser i wneud cysylltiadau da â chymunedau ffydd lleol. Gallai hefyd fod yn amser i drefnu taith ar y cyd â'r adrannau Hanes, Celf, Cerddoriaeth, Daearyddiaeth neu adrannau eraill.

Efallai y bydd eich fforwm ffydd neu'ch CYSAG lleol yn gallu'ch helpu i ddod o hyd i gyfeiriadau a chysylltiadau lleol a gallech ystyried pwrpas yr ymweliad, y canlyniadau disgwyliedig a sut ydych am gasglu data tra'r ydych yno (gallai hyn gysylltu â'r prosiect cynhyrchu ffilmiau a llais digidol – mae recordwyr delweddau llonydd a symudol yn werthfawr iawn ar ymweliadau).

Ffocws da i ymweliadau yw, “Pwy sy’n addoli yma a sut mae’r adeilad yn adlewyrchu credoau neu gysyniadau craidd y grefydd?” Beth am weithio mewn man addoli i ddatblygu taflen i ymwelwyr wedi’i dylunio ar y cyd rhwng eich disgyblion â’r man addoli.

Os ydych am wneud sbloets iawn ohoni, beth am gynllunio taith i Israel, India neu’r Aifft dros wyliau’r Pasg... pe baech yn dechrau cynllunio nawr ;-)

I’ch helpu i gynllunio’r ymweliad, edrychwch ar <http://pow.reonline.org.uk/>



11. Trefnwch fis o ffilmiau

Beth am gynnal mis ffilmiau gan ddangos ffilmiau sydd â chysylltiad crefyddol? Cyn belled â’ch bod yn peidio â chodi tâl, dylech allu wneud hynny yn neuadd yr ysgol neu’r ystafell ddosbarth Addysg Grefyddol yn ddi-drafferth. Gallech gysylltu hyn â’r syniad am fwyd a gweini byrbrydau cysylltiedig. Byddwch yn ymwybodol o’r oedrannau y mae’r ffilmiau hyn yn addas ar eu cyfer. Gallech ddangos:

- Moses (1998) – ardystiad U
- The Green Mile (1999) – ardystiad 18
- Gattaca (1997) – ardystiad 15
- Dead Man Walking (1995) – ardystiad
- Bhaji on the Beach (1993) – ardystiad
- Creation (2009) – ardystiad PG
- The Golden Compass (2007) – ardystiad PG-13

12. Gwahoddwch bobl i’r ysgol

Mae ymwelwyr yn ychwanegu rhywbeth arbennig at unrhyw wers neu ddigwyddiad. Gallai nifer o’r syniadau uchod gael budd o ymwelwyr megis y gwasanaethau, y diwrnod chweched dosbarth ac eraill ond chwiliwch am gyfleoedd eraill i ddod ag ymwelwyr i mewn i’r ysgol. Gallai hyn gynnwys ymwelwyr yn dod i mewn i’ch ystafell ddosbarth ar

gyfer digwyddiad - beth am Hajji os ydych yn gweithio ar Islam? Gall unrhyw aelod o gymuned ffydd leol sy’n dod i siarad am rôl eu ffydd yn eu bywydau fod yn ardderchog. Byddai panel o ymwelwyr ar gyfer sesiwn holi yn hyfryd.

Byddwch yn ymwybodol o’r angen i wirio ymwelwyr, polisi diogelu eich ysgol a sgiliau unrhyw ymwelwyr i weithio gyda phlant.

13. Gwnewch ychydig o waith ymchwil

Mae’r mis hwn i ddathlu Addysg Grefyddol yn gyfle i chi ddarganfod mwy am yr hyn y mae disgyblion yn eu hoffi (a’r pethau nad ydynt yn eu hoffi) am y testunau a’r fethodoleg yr ydych yn ei defnyddio mewn Addysg Grefyddol. Efallai yr hoffech ddsbarthu holiadur i’r dosbarthiadau neu gyfweled â disgyblion. Eto, mae hwn yn gyfle i gynnwys y disgyblion yn y gwaith hwn. Gofynnwch iddynt lunio holiadur neu gwestiynau ac yna casglwch y data a’i ddadansoddi. Byddwch wedi’ch cyfyngu i’r Maes Llafur Cytûn ond gallai hyn eich helpu i benderfynu ar destunau 2012 neu ar gyfer dewisiadau TGAU neu AS/A2. Bydd hyn hefyd yn gwneud i’r disgyblion deimlo’n rhan o’r dewisiadau yr ydych yn eu gwneud. Mae Addysg Grefyddol yn sefyllfa eithaf unigryw yn y ffaith y gall benderfynu pa destunau i’w cwmpasu. Mae’n un o’r manteision o BEIDIO â bod yn rhan o’r Cwricwlwm Cenedlaethol felly manteisiwch ar hynny er mwyn canfod beth hoffai’ch disgyblion ei astudio. Efallai eich bod eisoes yn gwneud y pethau cywir ac y gallai hyn ddarparu tystiolaeth i’ch pennaeth wrth sôn am gynyddu adnoddau.

